Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Cylch Meithrin Cefnfaes**

**Plas Ffrancon**
**Lôn Newydd**
**Bethesda**
**LL57 3DT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

30/9/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Chylch Meithrin Cefnfaes

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd i blant<br>Gofal dydd llawn |
| Person cofrestredig | Lawrence Davies |
| Lleoedd cofrestredig | 35 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | Mewnosod â llaw]<br>14 Ionawr 2022 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Mewnosod â llaw]<br>Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae gan y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n cael effaith arnynt. Maent yn gyfathrebwyr hyderus ac yn mynegi eu hunain yn dda. Mae'r plant yn hapus ac yn ymgartrefu'n gyflym wrth iddynt gael eu cyfarch yn gynnes gan staff cyfeillgar. Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r rhai sy'n gofalu amdanynt. Maent yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth yn briodol.

Mae'r staff wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn eu dealltwriaeth o roi arferion a gweithdrefnau diogelu ar waith. Mae hwn yn cael ei flaenoriaethu ac mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i amddiffyn plant. Mae'r staff yn hybu ffyrdd iach o fyw ac yn annog y plant i fwyta'n iach. Maent yn ymgysylltu'n dda â'r plant ac yn eu canmol am eu cyflawniadau yn effeithiol. Mae'r staff yn cynllunio profiadau diddorol a chadarnhaol i'r plant ddatblygu eu chwarae a'u dysgu.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn lân. Mae'r ystafell chwarae yn eang ac yn addas ar gyfer anghenion y plant. Mae'r amgylchedd dan do wedi'i drefnu'n ddeniadol gydag amrywiaeth dda o deganau ac adnoddau o ansawdd uchel. Oherwydd y tywydd gwael, ni arolygwyd y man awyr agored y tro hwn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gweithio'n galed i wneud gwelliannau sylweddol i fodloni gofynion a chreu canlyniadau gwell i blant. Mae'r lleoliad yn gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Llesiant

Mae'r plant yn ffynnu, yn fodlon ac yn mynegi mwynhad. Mae ganddynt ymdeimlad o berthyn, maent yn dechrau ffurfio cyfeillgarwch, ac yn dod yn gyfarwydd â threfniadau arferol.

Mae'r plant yn mynegi eu hunain ac maent yn gyfathrebwyr hyderus. Maent yn mwynhau siarad â'r staff a'u ffrindiau am eu teuluoedd a'r hyn y maent yn hoffi ei wneud. O ganlyniad, clywyd trafodaethau bywiog. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau, er enghraifft, dywedodd plentyn wrth aelod o staff nad oedd eisiau byrbryd a'i fod am archwilio'r teganau meddal yn lle hynny. Cafodd cais y plentyn ei barchu, a gwnaeth hyn i'r plentyn deimlo'n hapus.

Mae'r plant yn ymgartrefu'n gyflym wrth iddynt gael eu cyfarch yn gynnes gan staff cyfeillgar a chânt eu cefnogi i hongian eu cotiau a'u bagiau ar begiau. Maent yn mynd at y staff yn rhwydd i wneud ceisiadau, er enghraifft, gofynnodd plentyn am help i glymu ei ffedog, ac ymatebwyd i hynny ar unwaith.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd, maent yn dysgu cymryd eu tro, i rannu ac i gydweithio'n dda. Er enghraifft, smaliodd dau ffrind eu bod yn gwneud brecwast a rhannwyd y dasg o daenu'r jam tegan ar y baguette tegan. Mae'r plant yn gwrtais ac yn foesgar; maent yn mwynhau achlysur cymdeithasol amser bwyd ac yn eistedd wrth y bwrdd yn braf. Cânt eu canmol gan y staff am eu cyflawniadau, ac mae hyn yn gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac i deimlo'n dda amdanynt eu hunain.

Mae'r plant yn ddysgwyr egnïol a chwilfrydig; maent yn ymgysylltu â'u chwarae a'u dysgu yn llwyr. Maent yn mwynhau archwilio'r gweithgareddau pen bwrdd a gynigir ac yn achub ar y cyfle i ymarfer eu sgiliau llawysgrifen gydag amrywiaeth o bennau blaen ffelt. Mae plant eraill yn mwynhau datblygu eu dychymyg yn y gornel gartref ac yn defnyddio amrywiaeth o nwyddau cartref wedi'u hailgylchu i ehangu ar eu chwarae rôl. Mae'r plant yn brysur, yn mwynhau arbrofi ar lenwi amrywiaeth o gynwysyddion yn yr hambyrddau tywod a dŵr. Maent yn ymarfer defnyddio eu sgiliau echddygol manwl wrth iddynt ddysgu sut i ddefnyddio pibed. Roedd plentyn yn mwynhau chwythu swigod a chlywyd llawer o wenu a chwerthin wrth i'w ffrind fyrstio'r swigod.

Mae’r plant yn meithrin eu hannibyniaeth yn briodol. Er enghraifft, roedd plentyn yn canolbwyntio'n dda am gyfnod estynedig wrth iddo ddefnyddio amrywiaeth o sialc o wahanol liwiau i wneud marciau ar y bwrdd du. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau yn hyderus. Er enghraifft, dewisodd plentyn beidio ag ymuno â gweithgareddau amser cylch a mwynhaodd amser tawel, yn eistedd yn y gornel glyd yn darllen llyfrau. Mae'r plant yn bwydo eu hunain yn llwyddiannus yn ystod amser bwyd ac yn helpu eu hunain i lefrith neu ddŵr i'w yfed. Mae'r plant yn dysgu sut i wneud pethau drostynt eu hunain gydag anogaeth gadarnhaol oddi wrth y staff.

## Gofal a Datblygiad

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r staff yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau. Mae ganddynt ymagwedd gynnes, garedig a chyfeillgar tuag at roi gofal.

Mae’r staff wedi gwneud gwelliannau sylweddol i fodloni gofynion trwy ddatblygu a gwella eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o arferion a gweithdrefnau diogelu. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw’r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn hyrwyddo arferion bwyta'n iach yn dda, er enghraifft, amser brecwast cynigiwyd grawnfwyd i'r plant, detholiad o ffrwythau a dewis o ddŵr neu lefrith i'w yfed. Mae hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu yn gyfredol. Mae'r staff yn cynnal ymarferion tân ac wedi gwella'r modd y maent yn cofnodi'r rhain trwy gynnwys canlyniad manwl

Mae'r staff yn cofnodi damweiniau a digwyddiadau yn gywir ac mae'r rhain yn cael eu llofnodi gan y rhieni i ddangos eu bod yn cael eu hysbysu. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo ac mae hyn yn helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn briodol. Mae'r gweithdrefnau newid cewynnau yn unol ag arweiniad rheoli heintiau cyfredol. Mae'r staff yn gweithredu arferion glanhau cadarn. Maent yn cofnodi presenoldeb y plant a'u presenoldeb eu hunain yn gyson fel rhan o'u harferion diogelu ehangach i sicrhau diogelwch y plant.

Mae'r staff yn canmol y plant am eu hymdrechion yn gadarnhaol. Maent yn darparu amgylchedd cyfeillgar a chroesawgar ac yn sicrhau bod y plant yn cael sicrwydd a chysur. Mae hyn yn creu awyrgylch tawel a hamddenol. Maent yn ymhyfrydu yng nghyflawniadau'r plant. Er enghraifft, yn ystod gweithgaredd amser cylch dathlwyd gwaith adeiladu plentyn a gwobrwywyd y plentyn â sticer, roedd yn braf gweld y plant yn clapio ac yn hapus am gyflawniad eu ffrind.

Mae gan staff ddull ymatebol o gynllunio gweithgareddau ac maent yn canolbwyntio ar gael y plant i gyfeirio eu chwarae eu hunain. Mae'r staff yn ymgysylltu'n gyson â'r plant yn ystod eu gweithgareddau, er enghraifft, arsylwodd aelod o staff y plant yn chwarae yn y gornel gartref a rhoddodd gymorth iddynt i ddatblygu eu chwarae pan oedd angen. Maent yn annog y plant i ymgysylltu â’r gymuned leol i wella eu sgiliau cymdeithasol, er enghraifft, roedd ffotograffau’n dangos y plant yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau yn y caffi lleol ac yn cael taith ar fws.

## Yr Amgylchedd

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gweithio'n galed i sicrhau bod yr amgylchedd yn hyrwyddo chwarae a dysgu'r plant yn effeithiol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amgylchedd diogel, glân a chroesawgar lle gall y plant chwarae a dysgu yn llwyddiannus. Mae'r unigolyn â gofal yn sicrhau bod y staff yn dilyn y canllawiau rheoli heintiau cyfredol. Mae gwybodaeth ar gael i bawb am sut y dylent ymdrin ag argyfyngau. Mae'r staff yn goruchwylio'r plant yn dda.

Mae’r bobl sy’n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod cynllun yr ystafell chwarae yn hybu annibyniaeth y plant, gan eu galluogi i archwilio a gwneud eu dewisiadau eu hunain ynghylch yr hyn y maent am chwarae ag ef. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u cyflwyno'n hyfryd gydag offer o ansawdd da. Mae’r teganau a’r adnoddau yn addas ar gyfer oedrannau’r plant y gofalir amdanynt ac mae ganddynt ddodrefn o faint priodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ardal benodol ar gyfer eitemau personol y plant. Maent wedi addurno coeden hyfryd gyda goleuadau a ffotograffau o'r plant yn chwarae. Maent yn cyflwyno gwaith celf y plant yn hyfryd ac mae hyn yn dangos i’r plant bod eu hymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi. O ganlyniad, mae hyn yn creu ymdeimlad o berthyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad hawdd at deganau ac adnoddau. Mae adnoddau ar gael ar gyfer datblygu sgiliau synhwyraidd, iaith, rhifedd a hunanymwybyddiaeth y plant. Mae amrywiaeth dda o adnoddau wedi’u hailgylchu a chynaliadwy sy'n datblygu ymhellach sgiliau synhwyraidd a chwilfrydedd y plant yn effeithiol. Mae ardaloedd ar gyfer amser tawel a gorffwys wedi’u trefnu’n hyfryd gyda detholiad o glustogau meddal lliwgar, blancedi, rygiau a basgedi trysor. Ceir amrywiaeth o lyfrau, ac mae’r rhain wedi’u cyflwyno’n ddeniadol i annog y plant i’w darllen.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan fod hwn yn arolygiad â ffocws, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae’r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i wneud gwelliannau ac maent yn rheoli'r lleoliad yn dda. Mae gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i gydymffurfio â rheoliadau a gwella canlyniadau i'r plant.

Mae'r datganiad o ddiben yn rhoi gwybodaeth i'r rhieni am y lleoliad a'r hyn y mae'n ei gynnig. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu'n briodol a’u hadolygu. Mae gan y bobl sy’n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o’u cyfrifoldeb i hyrwyddo’r Gymraeg ac mae'r ‘Cynnig Rhagweithiol’ yn cael ei ddarparu.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer holl bersonau’r gwasanaeth a'r staff yn gyfredol. Mae hyfforddiant gorfodol hefyd yn gyfredol. Mae'r wybodaeth ofynnol wedi'i chasglu yn ffeiliau cyflogaeth y staff a chofnodion unigol y plant. Cofnodir trafodaethau ar oruchwylio ac arfarniadau un-i-un â'r staff. Mae'r trafodaethau hyn yn cofnodi’r targedau perfformiad ar gyfer pob aelod o staff er mwyn gwella eu harferion.

Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw pa mor hapus ydyn nhw ar y lleoliad a bod eu plentyn yn hapus ac wedi ymgartrefu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â’r rhieni a'r gymuned leol. Mae profiadau cadarnhaol o’r fath yn helpu’r plant i ddod yn gyfarwydd â’r amgylchoedd o’u cwmpas a gwella eu sgiliau cymdeithasol.

## Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn. | Amherthnasol |
| 22 | Nid yw'r unigolyn cofrestredig wedi sicrhau bod pob aelod o staff yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd ganddynt mewn hyfforddiant diogelu yn eu hymarfer pan fydd ganddynt bryderon am blant. Mae polisi'r lleoliad yn nodi y dylid adrodd y rhain heb oedi. Nid yw'r unigolyn cofrestredig wedi sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth briodol o'r broses o gofnodi'r camau y maent wedi'u cymryd pan fyddant wedi nodi pryderon am blentyn. | Cyflawnwyd |
| 6 | Mae'r unigolyn cofrestredig wedi methu â dangos ei addasrwydd parhaus i AGC ac nid yw wedi cyflwyno tystysgrif gwiriad datgelu manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. | Cyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo’r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio’r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 17 | Mae'r unigolyn cofrestredig wedi methu â chwblhau'r asesiad o’r gwasanaeth, sef gofyniad cyfreithiol o dan Reoliad 17 o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. | Adolygwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 16/11/2022